CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
24 Medi 2019, Gosen Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, A Williams, C Jones, D Roberts, A Wyn, A C Jones, G D Williams, D ap Rhobert, N Roberts (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C McGregor, D Pritchard, W Williams, D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng A Williams.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng Nicola Roberts - materion cynllunio
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 16.07.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Vaughan yn cynnig a Cyng D ap Rhobert yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mewn llaw
4.2	**Archwilydd allanol** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.3	**Lay By Llangwyllog** - Nid yw'r Cyngor Sir yn barod i godi arwydd dim parcio gan nad yw'n lay by. Maen nhw'n awgrymu, os yw cerbydau sydd wedi'u parcio yn berygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd, bod y mater yn cael ei gyfeirio at yr heddlu. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at yr heddlu.
4.4	**Baw ci Talwrn** - Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan yr heddlu ond y cyfan maen nhw wedi'i wneud yw cyfeirio'r cyngor at bolisi'r Cyngor Sir. Penderfynwyd monitro'r mater.
4.5	**Sedd Wâg** - Mae'r Clerc wedi derbyn un cais gan Mr Eilian Williams, Bodneithior, Talwrn. Cytunwyd i gyfethol Mr Williams.
4.6	**Llwybr Tre Ddewi** - Mae'r Clerc wedi gwneud cais i gofrestru y llwybr
4.7	**Japanese knotweed** - Mae'r Clerc wedi derbyn ffotograffau o'r clymog a'u hanfon ymlaen at Ysgrifennydd Neuadd Talwrn. Mae'r Ysgrifennydd wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith ac yn sôn am y tir comin o ble y tarddodd y clymog. Awgrymwyd y dylai'r Ysgrifennydd gysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch perchnogaeth y tir comin. Hefyd, a fydd yswiriant y neuadd yn talu unrhyw beth?
4.8	**Mynwent Llanddyfnan** - Mae'r fynwent bellach wedi'i thorri ac mae'n daclus
4.9	**RAF y Fali -** Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb. Bydd yr RAF yn trafod cyfarfod gyda Cadeiryddion Cynghorau Cymunedol i drafod y mater ymhellach. Bydd Cyng A Wyn yn cynrychioli Cadeirydd y Cyngor.
4.10	**Eglwys Llanddyfnan -** Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru gan ddweud eu bod yn trefnu cyfarfod i drafod y mater.
	Llofnod……Cadeirydd 15.10.19

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	Cofrestr Gyhoeddus ar y We - gwybodaeth yn unig
5.2	Ymgynghoriad Cynllunio - FPL/2019/2016 Fron Deg, Mynydd Bodafon - dim sylwadau
5.3	YmgynghoriadCynllunioDAG/2019/13 Bryn Golau Capel Coch - dim sylwadau
	Priffyrdd
5.4	Lay by Llangwyllog - gweler 4.3
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Eisteddfod Talwrn - cais ariannol. Cytynwyd i gynnig £250.00
6.2	RAF y Fali - gweler 4.9
6.3	Yr Eglwys yng Ngymru - gweler 4.10
6.4	Yr Heddlu - gweler 4.4
	MATERION ARIANNOL
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Palmant Maes y Coed - Hafan Deg - mae'r gwaith wedi'i wneud
8.2	Cyflwr Lonydd Talwrn - Mae'r Cyngor Sir yn ail-wynebu ar hyn o bryd
8.3	Costau aelodau - Dosbarthodd y Clerc ffurflenni i'r aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Coed o gwmpas y lamp ar draws i Bodlondeb a'r golau wrth ymyl Glascoed
9.2	Mae'r ffordd o groesffordd Talwrn i Bentraeth yn dirywio
	Llofnod……Cadeirydd 15.10.19